Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Dyddiad: 9 Awst 2001

Annwyl Gyfaill

**Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI:**
**AROLWG POLISI AR ADFYWIO CYMUNEDOL**

## Cefndir

Mae Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai y Cynulliad Cenedlaethol yn cynnal arolwg polisi ar rôl grwpiau cymunedol wrth adfywio cymunedau.

Bydd yr arolwg yn archwilio cyllid a darpariaeth mentrau adfywio cymunedol y Cynulliad - tua 60 ohonynt mewn nifer. Bydd yn ystyried a yw'r arian yn cael ei dargedu'n effeithiol ac yn cael ei ddarparu yn y ffordd iawn gan y sefydliadau iawn. Bydd yn gwneud argymhellion ynghylch rhesymoli'r trefniadau presennol.

## Gwahodd sylwadau

Mae'r pwyllgor am eich gwahodd chi i ychwanegu at yr hyn y mae'n ei ystyried drwy ddarparu cyflwyniad ysgrifenedig yn nodi safbwynt eich sefydliad ar y polisïau a'r rhaglenni adfywio cymunedol, gan gynnwys unrhyw wybodaeth ffeithiol a allai fod yn berthnasol. Nid oes ffurf benodedig ar gyfer gwneud cyflwyniad, ond efallai y byddai cadw cylch gorchwyl yr arolwg mewn cof o gymorth i chi. Rwyf hefyd wedi llunio rhestr o faterion y gallech chi eu hystyried yn eich ymateb.

Efallai y bydd y Pwyllgor am eich gwahodd maes o law i wneud cyflwyniad llafar i gefnogi'ch cyflwyniad ysgrifenedig.

## Cylch gwaith

Dyma gylch gwaith yr arolwg:

Ystyried :

- y polisïau a'r rhaglenni sydd wedi eu hanelu at adfywio cymunedau sydd wedi eu mabwysiadu gan y Cynulliad a'r cyrff y mae'n eu noddi, gyda'r bwriad o wneud argymhellion ynghylch symleiddio'r rhaglenni sydd eisoes yn bodoli a gwella'r trefniadau ar gyfer eu gwireddu;
- y cyllid ar gyfer y polisïau a'r rhaglenni hynny;
- rôl partneriaethau o ran datblygu adfywio cymunedol;
- pa faterion pellach o ran yr agenda adfywio cymunedol ddylai'r Pwyllgor fynd i'r afael â hwy, gan ystyried y gwaith sy'n cael ei wneud ar y rhaglen *Rhoi Cymunedau'n Gyntaf*.

## Materion i'w hystyried.

Wrth fwrw ymlaen â'r arolwg, bydd y Pwyllgor yn ystyried y cwestiynau canlynol (nid yw hon yn rhestr drwyadl, ond ei nod yw rhoi syniad o'r math o feysydd y bydd y Pwyllgor yn mynd i'r afael â hwy):

- Beth yw rôl y Cynulliad Cenedlaethol, yr awdurdodau lleol, y sector gwirfoddol a grwpiau cymunedol yn y broses adfywio cymunedol?
- A yw'r rolau hynny wedi eu diffinio'n ddigonol ac a ydynt yn briodol?
- A yw'r arian yn cael ei dargedu'n effeithiol? (A yw pobl yn sicr ynghylch pa arian sydd ar gael ar gyfer adfywio cymunedol ac o ba ffynonellau?)
- A yw'r arian yn cyrraedd yr ardaloedd a dargedir?
- A yw'r gwasanaeth yn cael ei gyflwyno yn y ffordd iawn gan y sefydliadau iawn?
- Oes eglurder ynghylch y gefnogaeth a'r gwasanaethau sydd ar gael ar gyfer datblygu cymunedol ac adfywio cymunedol?
- Pwy ddylai fod yn gyfrifol am weinyddu'r arian ?
- A yw'r cyllid yn ddigonol?
- Beth yw'r dulliau mwyaf priodol ar gyfer dosbarthu'r arian?
- Pa wersi a ddysgwyd ynghylch adfywio cymunedol a'r modd y caiff ei gyllido ?
- Sut y gellir gwella'r trefniadau cyllido presennol?
- Beth y gellir ei wneud i sicrhau bod trigolion cymunedau lleol a chyrff gwirfoddol lleol yn cyfrannu at y broses adfywio ac yn cael eu cynnwys yn y broses honno?
- Oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud mewn perthynas â'r materion y mae'r Pwyllgor yn eu hystyried?

## Cyhoeddi'r ymateb i'r ymgynghoriad

Oni bai fod y sawl sy'n cyfrannu yn gofyn i'r Pwyllgor gadw eu cyfraniad yn gyfrinachol, mae'r Pwyllgor yn bwriadu i'r holl ymatebion fod ar gael i'r cyhoedd eu gweld.

## Amserlen

A fyddech cystal ag anfon unrhyw gyflwyniadau at:

Roger Chaffey
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Pwyllgor Llywodreath Leol a Thai
Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

Neu e-bost: Roger.Chaffey@wales.gsi.gov.uk

erbyn **dydd Gwener 12 Hydref 2001**.

Er gwybodaeth, mae'r Pwyllgor wedi gwahodd cyflwyniadau oddi wrth y sefydliadau sydd wedi'u rhestru ar y daflen amgaeedig. Yn ogystal â hyn, rhoddwyd copi o'r llythyr hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol fel y gall sefydliadau ac unigolion eraill gyflwyno'u safbwyntiau.

Yn gywir

**Roger Chaffey**
Clerc y Pwyllgor